

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Ebrill 2il 2013

Presennol: Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (Is gadeirydd), Ian Trow, Dewi Jones, Catrin Roberts, Heledd Jones, Arwel Ll Jones, Karl Jones a Beryl Griffiths.

Bethan Edwards (Swyddog Ariannol).

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lis Puw (Clerc). Yn ei habsenoldeb cymerwyd y cofnodion gan Huw Antur.

Derbyniwyd datganiadau buddiant ym mater cais ariannol y Clwb Peldroed gan Dewi Jones.

1156 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda

1157 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Mawrth 5ed a chyfarfod brys Mawrth 13eg 2013.

1158 **Materion yn codi :**

Llawr concriid ger Erw'r Fron: Nodwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau.

Arwydd Maes Chwarae Di Fwg: Cytunwyd i symud ymlaen i archebu'r arwydd am gost o £19.80 i gynnwys TAW.

Toiledau Cyhoeddus: Nodwyd fod trafodaethau'n parhau hefo statws trethiannol y toiledau, ac hefyd fod angen symud ymlaen i osod blwch gonestrwydd yn y toiled.

Adroddwyd fod yr eira diweddar wedi achosi difrod i landeri'r toiledau. Penderfynwyd gofyn i Owain Pugh wneud yr atgyweiriadau angenrheidiol.

Lloches Bws: Cytunwyd i dderbyn cynnig cwmni Anwyl o daliad o £3,495 ac i barhau i drafod lleoliad a dyluniad y lloches newydd gyda swyddogion cynllunio'r Parc Cenedlaethol.

1159 **Gohebiaeth:**

Gwynedd:

- i. Derbyniwyd copi o Raglen Waith Gwasanaeth Priffyrdd Gwynedd oedd yn cynnwys gwaith i'r draeniau ger Maes Carafannau Bryn Gwyn.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am Orchmynion Rheoli Cŵn Cyngor Gwynedd a ddaeth i rym ar Ebrill 1af.
- iii. Nodwyd fod ymgynghoriad wedi bod ar Gynllun Strategol Gwynedd ond na chafodd y Cyngor Cymuned rybudd digonol o'r cyfarfod.

Parc Cenedlaethol Eryri

Derbyniwyd cadarnhad fod ceisiadau cynllunio 2 Coed y Lôn a Thŷ Mawr Penantlliw wedi eu caniatáu gan y Parc Cenedlaethol.

Derbyniwyd gwybodaeth am brosiectau bioamrywiaeth posibl. Cytunwyd i anfon y llythyr ymlaen i Ysgol O M Edwards.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Un Llais Cymru

Cytunwyd i ail ymaelodi ag Un Llais Cymru ac i dalu'r tâl aelodaeth o £87.
Cytunwyd i dalu anfoneb o £30 am hyfforddiant 'Y Cyngor fel Cyflogwr'.

Ombwdsmon

Derbyniwyd Llyfrynnau Gwybodaeth yr Ombwdsmon ar sut i gwyno ynghylch cyrff cyhoeddus ac aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Arall:

Derbyniwyd llythyr ar fater perthnasol i Bwyllgor y Neuadd Bentref a chytunwyd i'w anfon ymlaen i Bwyllgor Rheoli'r Neuadd.

Derbyniwyd gwahoddiad gan Wersyll Glan-Ilyn i Noson Agoriadol ar Ebrill 29ain a gofynnwyd i Karl Jones, Huw Roberts a Bethan Edwards gynrychioli'r Cyngor Cymuned.

Materion Lleol:

Nodwyd fod y gwaith angenrheidiol ar gwlfert ger Deildre Ucha wedi ei wneud.

Adroddwyd fod gwaith atgyweirio ar do Cwt y Fynwent, a chytunwyd i ofyn i Gwilym Edwards i ymgymryd â'r gwaith.

1160 Hyfforddiant:

Derbyniwyd adroddiad gan Huw Antur ar sesiwn hyfforddiant 'Y Cyngor Fel Cyflogwr'. Cytunwyd i dderbyn yr argymhellion canlynol:

- i) I Gadeirydd y Cyngor Cymuned fod yn Rheolwr Llinell i holl swyddogion y cyngor.
- ii) I'r Cadeirydd gynnal sesiwn Rheoli Perfformiad i'r swyddogion bob 6 mis. Cytunwyd i dalu costau teithio i'r sesiwn yma.

Trefniadau PAYE: Cytunwyd i ymchwilio i bosibiliadau cael asiant i ddelio a gweinyddu materion cyflogaeth y Cyngor.

Hyfforddiant Lleol: Cytunwyd gydag awgrym y dylid trefnu sesiynau hyfforddiant i gynghorau cymuned ardal Penllyn ar y cyd.

1161 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- 2) Adroddwyd fod derbyniadau Noson Goffi'r Cyngor Cymuned oddeutu £500 gyda'r arian i'w rannu rhwng yr Ambiwylans Awyr a'r British Heart Foundation.
- 3) Derbyniwyd anfoneb am drethi'r toiledau cyhoeddus. Penderfynwyd aros i weld beth fydd canlyniad y trafodaethau ar statws trethiannol y toiledau.
- 4) Derbyniwyd Ffurflen Ariannol Flynyddol yr archwilwyr Hacker Young.
- 5) Derbyniwyd copi drafft o Asesiad Risg Ariannol y Cyngor. Gofynnwyd i'r Is Bwyllgor Cyllid roi sylw i'r ddogfen cyn y Cyfarfod Blynyddol.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

- 6) Ystyriwyd cais am arian gan Glwb Peldroed Llanuwchllyn a chytunwyd i gyfrannu £150.: Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniadau ariannol gan Adran Bentref yr Urdd, Sioe Llanuwchllyn, Apêl Leol Eisteddfod yr Urdd 2014, Canolfan y Plase, Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a Theatr Bara Caws.

1162 **Partneriaeth Penllyn** - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr:

- i. Fod y cyfrifoldeb am rai o asedau'r Parc Cenedlaethol ym Mhenllyn yn cael eu trosglwyddo i'r Bartneriaeth ym mis Ebrill, a bod trafodaethau yn mynd ymlaen i sicrhau fod pob trefniant angenrheidiol yn ei le.
- ii. Fod hysbyseb swydd Clerc Gwaith i'r Bartneriaeth yn cael ei baratoi ar gyfer gweinyddu cytundebau gwaith y Bartneriaeth.
- iii. Fod y prosiect i ddatblygu'r Henblas yn y Bala fel Canolfan Wasanaethau yn symud ymlaen, a thrafodaethau cadarnhaol wedi bod gyda nifer o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

1162 **UFA:**

Adroddwyd fod nifer o dorchau wedi eu gadael yn y Fynwent Newydd. Cytunwyd i ofyn i Gwilym Edwards eu clirio fel y bo angen. Nodwyd fod y Fynwent i'w gweld mewn cyflwr eithriadol o dda a bod lle i ddiolch i Gwilym Edwards am ei waith trylwyr. Nodwyd fod angen atgoffa rhai teuluoedd o'r angen i ddiogelu cerrig beddi.

Nodwyd fod angen clirio cwlferth rhwng Rhosyfedwen a'r Hen Gapel.

Amser gorffen: 9.00pm